Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr

17 Mehefin 2026, ar-lein

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Christian Brodie (Cadeirydd)
Jimena Alamo
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Moira Fischbacher-Smith
Rachid Hourizi
Odette Hutchinson
Lucy Jones
Richard Khaldi
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
Alex Stanley
Peter Vermeulen

Swyddogion

Karl Leydecker (Prif Weithredwr Dros Dro)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Eve Alcock (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Allanol Dros-dro)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)

Croeso, ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol y Cadeirydd (Eitem 1)

1. Croesawodd Christian Brodie aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod. Roedd Sara Drake yn ymuno i gyflwyno canfyddiadau adolygiad llywodraethiant allanol QAA. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nic Beech. Hwn oedd cyfarfod olaf Alex Stanley, a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaeth ar y Bwrdd. Croesawodd y Cadeirydd Karl Leydecker ac Eve Alcock i'r cyfarfod yn eu rolau newydd.

Cworwm a Buddiannau (Eitem 2)

2. Cyhoeddwyd bod y cyfarfod yn cyrraedd y cworwm. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau pellach.

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 11 Mawrth 2026 a Materion yn Codi o'r Cofnodion (Eitem 3, BD-25-26-37)

3. **Cymeradwywyd** y cofnodion fel cofnod cywir.

Adroddiad y Prif Weithredwr ac adroddiad ar ddatblygiadau polisi a rhyngweithiadau â chyllidwyr a rheoleiddwyr yng ngwledydd y DU (Eitem 4 BD -25/-26-38)

4. Cyflwynodd KL yr adroddiad, gan roi cyd-destun ar gyfer datblygiadau ar draws yr asiantaeth, gan gynnwys myfyrdodau ar staffio.

5. Soniodd KL am ymgysylltiad cadarnhaol â chyllidwyr ar draws y gwledydd datganoledig. [wedi'i olygu] Roedd Cyngor Cyllido'r Alban (SFC) yn awyddus i QAA gynnal ei ffocws ar yr ymagwedd drydyddol [wedi'i olygu]; awgrymodd adborth fod hyn yn ymsefydlu'n dda. Diolchodd Moira Fischbacher-Smith i KL am ei ymgysylltiad cynnar â SFC. [wedi'i olygu] Roedd yr ymgysylltiad cynnar ynghylch y dull TQER newydd yn gadarnhaol.

6. Roedd yr ymgysylltiad â Medr yng Nghymru yn gynhyrchiol, gydag ymgysylltiad y sector yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Roedd trafodaethau ynghylch cyllido yng Ngogledd Iwerddon yn dal i fod ar stop oherwydd yr oedi'n ymwneud â rhwystrau i gyllideb Pwyllgor Gwaith Gogledd Iwerddon yn ei chyfanrwydd.

7. [wedi'i olygu] Dangosodd yr adroddiad ar ryddfreinio, a gyhoeddwyd ar ddiwrnod y cyfarfod, waith rhagweithiol QAA i fynd i'r afael â phryderon y cyfryngau yn y sector. Roedd blaenoriaethau eraill a drafodwyd yn cynnwys gwaith trawsnewid ac effeithlonrwydd sefydliad Prifysgolion y DU (UUK) [wedi'i olygu], blaenoriaethau Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs), a chryfhau perthynas QAA ag AU Ymlaen.

8. Mynegodd KL ei werthfawrogiad o gyfoeth a dyfnder gwaith QAA. Tynnodd sylw at y ffaith bod y cynllun addysg draws-wladol (TNE) wedi'i gymeradwyo ar draws y pedair gwlad, bod adnewyddu aelodaeth yn mynd rhagddo'n dda, a bod yr asiantaeth gyfan yn ymwneud â hyn; hefyd bod QAA wedi cytuno i ymgymryd â gwaith ysgrifenyddol y Cyngor Ansawdd. Nododd y perthnasoedd gwaith cadarnhaol ar draws tîm y Pwyllgor Gwaith a chyda staff, gan wneud sylw, er bod amodau'n parhau i fod yn heriol, bod yr ysbryd cydweithredol o fewn yr asiantaeth yn gryf.

9. Roedd gwaith yn parhau i edrych yn ôl ar ailstrwythuro 2024 [wedi'i olygu]

10. Amlinellodd KL ac EA gynlluniau ar gyfer tîm penodol i Ymgysylltu â'r Sector. Byddai'r tîm yn ceisio cydlynu ymgysylltiad strategol ag aelodau, sianelu gwybodaeth i ffurfio sail ar gyfer rhaglenni, a helpu aelodau i wneud y mwyaf o werth yr hyn mae QAA yn ei gynnig. [wedi'i olygu]

11. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd arwain ymgysylltiad y sector ar y lefel gywir o fewn QAA, gan holi a ddylai fod yn swyddogaeth i dîm penodol neu'n gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith. Nododd y Bwrdd werth pŵer ymgynnull QAA a phwysigrwydd sicrhau bod ymgysylltiad yn ystyrlon ac wedi'i dargedu yn hytrach na'i fesur yn ôl cyfaint yn unig. [wedi'i olygu]

12. [wedi'i olygu]

13. Byddai cynigion y tîm Ymgysylltu â'r Sector yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod diwrnod cwrdd-i-ffwrdd y Pwyllgor Gwaith, a byddai dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu sefydlu i fesur effaith. Nododd y Bwrdd fod angen i fesurau ar gyfer llwyddiant o ran ymgysylltu fod yn glir i'r tîm. Tynnwyd sylw at lai o adnoddau staff mewn meysydd allweddol a oedd yn ymwneud â QAA, felly roedd angen i'r pwyslais fod ar effaith, nid cyfaint. [wedi'i olygu] Roedd angen i QAA gael ei weld fel sefydliad effeithlon yn y system trwy ddarparu arweinyddiaeth meddwl ar faterion allweddol. Yn y gwledydd, byddai'r pwyslais ar offer ac adnoddau i gefnogi effeithlonrwydd ar gyfer timau sicrhau ansawdd.

14. [wedi'i olygu]

15. [wedi'i olygu]

15. Cadarnhaodd tîm y Pwyllgor Gwaith fod unrhyw newidiadau dan ystyriaeth yn addasiadau wedi'u targedu, yn hytrach nag ailstrwythuro sylweddol, ond y byddent yn destun ymgynghoriad. Nid oedd unrhyw eitem ailstrwythuro ar agenda cyfarfod y Bwrdd. [wedi'i olygu]

Crynodeb o adborth gan gydweithwyr QAA a chynllun gweithredu (Eitem 5, BD-25-26-39)

16. Adroddodd KL ar ganlyniadau ei ymgysylltiad â chydweithwyr yn yr asiantaeth. Roedd papur y Bwrdd yn nodi adborth a chynllun gweithredu arfaethedig wedi'i rannu â'r asiantaeth, ac roedd staff wedi cael gwahoddiad i wneud sylwadau. Nododd y Bwrdd fod y pethau cadarnhaol a nodwyd yn wirioneddol galonogol, gan dynnu sylw at ddiwylliant QAA, egni ei phobl, ac effeithiolrwydd yr asiantaeth fel sefydliad â staff yn gweithio o bell.

17. Byddai'r cynllun yn elwa o flaenoriaethau tymor byr cliriach, gyda chamau gweithredu penodol i'w cwblhau o fewn cyfnod gosod o dri mis. Roedd yna berygl fod iaith "parhau i" yn cyfleu bod problemau eisoes wedi cael sylw, yn hytrach na bod yn arwydd o gamau ymatebol.

18. Codwyd cwestiwn ynghylch ymwybyddiaeth ymhlith Rheolwyr Ansawdd ar draws yr asiantaeth o raddfa'r newid yn yr amgylchedd allanol. Cadarnhaodd KL mai dyma oedd rhan o'r rhesymeg dros y tîm Ymgysylltu â'r Sector arfaethedig, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y busnes yn cadw'n gyfoes â chyflymder y newid yn y sector.

Ymunodd Nicky Callow a Phil Deans â'r cyfarfod.

Adroddiad chwarterol ar fonitro dangosyddion perfformiad allweddol a chyllid (Ch3) (Eitem 6, BD-25-26-40 a BD-25-26-41)

19. Cyflwynodd Rob Stroud ddiweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Ch3. Roedd y sgoriau Coch/Melyn/Gwyrdd a bennwyd yn fwriadol llym. Nid oedd gwaith cynghori a chanllawiau ar gyfer y Côd Ansawdd wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn, a byddai'n cael ei gwblhau ar ôl diwedd y flwyddyn; yn unol â hynny, cafodd ei raddio'n goch.

20. O ran cynaladwyedd yr asiantaeth, [wedi'i olygu]

21. Yn y categori datblygu, roedd heriau mewn meysydd cyflawni wedi'u nodi [wedi'u golygu]. Roedd ymateb strategol yn cael ei ddatblygu. Roedd y datblygiadau cadarnhaol yn cynnwys effaith y tîm Materion Cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad ar ryddfreinio a lansiad llwyddiannus y fframwaith Mynediad i AU newydd.

22. Cyflwynodd CBn adroddiad monitro cyllid Ch3. [wedi'i olygu]

23. [wedi'i olygu]

24. [wedi'i olygu] Byddai papur manwl ar ddyrannu costau ar gyfer gwasanaethau canolog yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau. **Camau gweithredu:** Bydd CBn yn cyflwyno papur dyrannu costau i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.

Cynllun Blynyddol 2026-27 – Dangosyddion Perfformiad Allweddol arfaethedig ar gyfer monitro gan y Bwrdd (Eitem 7, BD-25-26-42)

25. Cyflwynodd RS y dangosyddion perfformiad allweddol arfaethedig ar gyfer 2026-27. Roedd y cynllun blynyddol wedi'i adeiladu o'r gwaelod i fyny, â thîm y Pwyllgor Gwaith yn tynnu allan mesurau strategol bwysig ar gyfer monitro ar lefel y Bwrdd. Roedd dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cynaladwyedd yr asiantaeth wedi'u dadgyfuno'n dargedau refeniw a rheolaeth costau. Roedd dangosydd perfformiad allweddol sy'n edrych tua'r dyfodol wedi'i gyflwyno i adlewyrchu natur aml-flwyddyn y busnes. Byddai angen profi cynlluniau ar gyfer ehangu i farchnadoedd rhyngwladol newydd, ac roedd tîm y Pwyllgor Gwaith yn datblygu mecanweithiau monitro priodol.

26. O dan ddatblygiad yr asiantaeth, nod y dangosyddion perfformiad allweddol oedd mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd o fewn y sefydliad. Cynlluniwyd yr ymagwedd ryngwladol a'r cynlluniau ymgysylltu â'r sector i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Roedd rhywfaint o weithgarwch wedi'i dynnu o'r cynlluniau cychwynnol er mwyn caniatáu capasiti ar gyfer datblygiad a llesiant cydweithwyr. Roedd nifer y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cyflawni wedi'i leihau i ganolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau sylweddol o safon uchel.

27. Holodd aelod o'r Bwrdd a oedd y cydbwysedd rhwng dangosyddion perfformiad allweddol sy'n seiliedig ar weithgareddau a'r rhai sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn briodol. Esboniodd RS fod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u cynllunio i gysylltu'n ôl â chanlyniadau, gyda dangosyddion gweithgaredd yn gweithredu fel galluogwyr. Cydnabuwyd perthynas symbiotig rhwng y naill a'r llall.

28. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2026-27.

Cofrestr cyfleoedd strategol, gan gynnwys cynnig trawsnewid digidol (Eitem 8, BD-25-26-43)

29. Cyflwynodd Tom Yates y gofrestr cyfleoedd strategol, a fyddai'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau rheolaidd o hyn ymlaen. Roedd y gofrestr yn cynnwys syniadau a gynhyrchwyd o fewn tîm y Pwyllgor Gwaith a'r grŵp arweinyddiaeth; fe'u cyflwynwyd fel rhestr o naw cyfle (ar hyn o bryd) wedi'u blaenoriaethu . Byddai'r fformat yn esblygu. Byddai datblygu cyfleoedd lluosog yn gofyn am adnoddau a, lle bo'n briodol, achos busnes dros ddefnyddio arian o gronfeydd wrth gefn.

30. Roedd y cyfleoedd allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys:

    a) [wedi'i olygu]

    b) [wedi'i olygu]

    c) [wedi'i olygu]

    d) [wedi'i olygu]

    e) [wedi'i olygu]

    f) [wedi'i olygu]

    g) [wedi'i olygu]

    h) [wedi'i olygu]

31. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y fenter, gan awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cyfleoedd yn y gwledydd datganoledig, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi rheoleiddwyr yng Nghymru a'r gofod trydyddol. Cadarnhaodd TY fod gwaith materion cyhoeddus parhaus i geisio mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

32. Holiwyd a fyddai datblygiad y cyfleoedd rhyngwladol yn gofyn am staff tramor parhaol, gan nodi tensiwn posibl o ran ymrwymiadau cynaladwyedd. [wedi'i olygu]

33. [wedi'i olygu]

34. [wedi'i olygu]

35. [wedi'i olygu]

36. Cytunodd y Bwrdd fod y gofrestr yn adlewyrchu uchelgais a meddwl beiddgar o fewn yr asiantaeth. [wedi'i olygu]

37. Cyflwynodd CBn y papur trawsnewid digidol. Nododd fod y Bwrdd wedi trafod trawsnewid digidol yn flaenorol, ond na fu llawer o ddatblygiad – yn rhannol oherwydd anhawster wrth ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith o'r capasiti presennol ar draws yr asiantaeth.

38. Roedd yr ymagwedd arfaethedig yn ceisio sefydlu adnodd pwrpasol â'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion busnes. Roedd y meysydd blaenoriaeth yn cynnwys: cefnogi'r hyn a gynigir i'r aelodaeth; gwella dealltwriaeth a dadansoddeg data; tyfu'r busnes rhyngwladol; trawsnewid prosesu archebion gwerthiant; a chyflawni effeithlonrwydd gweithredol trwy awtomeiddio systemau.

39. Gofynnwyd i'r Bwrdd a oedd yn cefnogi'r ymagwedd arfaethedig, ac yn fodlon cymeradwyo datblygu ymarfer cwmpasu, [wedi'i olygu]. Byddai unrhyw ymrwymiad ariannol yn cael ei oedi tan ar ôl i'r broses gyllidebol gael ei chwblhau.

40. Nododd y Bwrdd fod maint yr uchelgais yn sylweddol a bod angen amserlen ac ymarfer blaenoriaethu wedi'i ffocysu i sicrhau bod cwmpas y prosiect trawsnewid digidol yn parhau i fod yn hylaw. Byddai'n well cymhwyso dulliau arfer gorau i un neu ddau faes blaenoriaeth yn gyntaf, yn hytrach na cheisio cyflawni trawsnewid llawn ar yr un pryd.

41. Roedd parodrwydd sefydliadol yn rhagofyniad. Byddai angen i staff fod â'r offer angenrheidiol, yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio cyfarpar newydd ar ôl cyflawni'r prosiect. Dylid integreiddio DPP a hyfforddiant i'r cynlluniau, er mwyn sicrhau bod

gwybodaeth y staff yn parhau i helpu ag esblygu'r trawsnewidiad. Dylai profiad y cwsmer fod yn brif ystyriaeth, a dylai rhanddeiliaid fod yn barod am gyfnod o addasu.

42. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y cynnig, gan ymgorffori'r adborth o'r trafodaethau, ac anogodd ddatblygu ymarfer cwmpasu i'w gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

Cyllideb 2026 (Eitem 9, BD-25-26-44)

43. Cyflwynodd CBn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026-27. [wedi'i olygu]

44. [wedi'i olygu]

45. [wedi'i olygu]

46. [wedi'i olygu]

47. Roedd y targed incwm ar gyfer gwaith rhyngwladol yn uchelgeisiol, ond yn gyraeddadwy. [wedi'i olygu]

48. O ran aelodaeth, roedd y gyllideb yn tybio y byddai cyfraddau ymadael yn gyson â'r patrwm hanesyddol. [wedi'i olygu]

49. Cyflwynwyd y senarios gorau, gwaethaf a mwyaf tebygol. [wedi'i olygu]

50. Rhannodd Odette Hutchinson y wybodaeth ddiweddaraf am y cyd-destun yng Ngogledd Iwerddon. [wedi'i olygu]

51. [wedi'i olygu] Nododd Peter Vermeulen ei fod yn cefnogi'r gyllideb, a chytunodd y Bwrdd y dylai aros fel y'i cyflwynwyd, [wedi'i olygu].

52. Nododd y Bwrdd hefyd, o ystyried y risgiau presennol, fod angen gwarged yn y tymor hwy i greu amddiffyniad yn erbyn risgiau mwy. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno rhagolwg tair blynedd mewn cyfarfod yn y dyfodol. Byddai cynllun buddsoddi clir gyda mecanweithiau rheoli costau a disgwyliadau refeniw yn cynnig mwy o eglurder.

53. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y gyllideb ar gyfer 2026–27, gan gynnwys costau'r ad-drefnu a chostau cwmpasu'r trawsnewid digidol.

Ymunodd Sara Drake â'r cyfarfod.

Adolygiad Llywodraethiant Allanol (Eitem 10, BD-25-26-45)

54. Cyflwynodd SD yr adroddiad, gan dynnu sylw at yr argymhellion allweddol. Diolchodd i aelodau'r Bwrdd am eu cyfranogiad mewn cyfweliadau ac arolygon, gan gydnabod bod yr adolygiad wedi dod ar adeg heriol i'r sefydliad.

55. At ei gilydd, canfu'r adolygiad arweinyddiaeth ymroddedig iawn, perthnasoedd da, a diwylliant o ofal ac uniondeb. [wedi'i olygu] Daeth tri phrif faes ffocws i'r amlwg o'r adolygiad:

    a. Maint a chyfansoddiad y Bwrdd: [wedi'i olygu] Ochr-yn-ochr â hyn, argymhellwyd Bwrdd Ymgynghorol wedi'i ailffocysu, fel fforwm strategol, i'w gadeirio gan aelod o'r Bwrdd sy'n cynrychioli'r sector. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle i gynnig mewnbwn adeiladol ar strategaeth sefydliadol.

b. Sgiliau a Phrofiad: [wedi'i olygu] Gellid mynd i'r afael â'r rhain yn rhannol trwy strwythur y Bwrdd Ymgynghorol a thrwy gyfethol wedi'i dargedu i bwyllgorau. Argymhellwyd Pwyllgor Goruchwylio Masnachol i roi sicrwydd i'r Bwrdd ac i feithrin diwylliant o arloesedd o fewn ffiniau moesegol.

c. Strwythur Pwyllgorau: argymhellodd yr adolygiad ystyried lleihau nifer y pwyllgorau, gyda rhai o bosibl yn adrodd trwy'r Pwyllgor Gwaith yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Nodwyd bod llais y myfyrwyr yn bwysig, ond nododd yr adolygiad nad oedd ei ddylanwad ar benderfyniadau'r Bwrdd bob amser yn glir. Dylid ystyried a ellid cyflawni mwy o effaith trwy brosesau'r Pwyllgor Gwaith.

56. Argymhellodd yr adolygiad rôl ehangach i'r Pwyllgor Enwebu a Thaliadau, gyda mwy o oruchwyliaeth weithredol o faterion staff, cynllunio olyniaeth a strwythur sefydliadol, yn ogystal â llesiant ac ymgysylltiad staff. [wedi'i olygu] O ystyried mai pobl oedd prif ased QAA, roedd y materion hyn yn haeddu mwy o sylw ar lefel y Bwrdd.

57. Roedd pryder clir o ran yr amgylchedd ar-lein presennol a ddefnyddir i gefnogi'r Bwrdd a'r defnydd o SharePoint. Argymhellwyd buddsoddi mewn porth wedi'i neilltuo ar gyfer y Bwrdd.

58. Cododd y Bwrdd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd angen meddwl yn ofalus am y diffiniad o "graffter masnachol" yng nghyd-destun sefydliad fel QAA. Yr hyn a oedd ar goll yn aml oedd, nid profiad busnes cyffredinol, ond arbenigedd penodol mewn datblygu ffrydiau refeniw masnachol o'r dechrau, a hynny o fewn diwylliant nid-er-elw. Gallai cyfethol wedi'i dargedu i bwyllgor fynd i'r afael â hyn.

b) O safbwynt rhyngwladol, nododd aelod o'r Bwrdd mai anaml y byddai'r rhai a gafodd eu cyfethol oherwydd eu gwybodaeth ryngwladol yn cael eu gwahodd i weithredu'r arbenigedd hwnnw'n uniongyrchol. Dylid adolygu'r mecanwaith ar gyfer gwneud hynny.

c) O ran Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr, cydnabu aelod o'r Bwrdd fod ei allbynnau wedi tueddu tuag at y gweithredol. [wedi'i olygu]

d) O ran Pwyllgor Cynghori Strategol Cymru, [wedi'i olygu]. Roedd adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau ar y gweill i gasglu adborth ar sut y gellid gwella hyn.

e) Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor Gwaith baratoi argymhellion ar gyfer camau gweithredu i'w hystyried yn y diwrnod cwrdd-i-ffwrdd ym mis Hydref [wedi'i olygu]. **Camau gweithredu:** Y Pwyllgor Gwaith i ystyried yr ymagwedd at weithredu argymhellion yr adolygiad llywodraethiant allanol, gyda chamau gweithredu i'w cyflwyno i'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd ym mis Hydref.

Gadawodd SD ac Alex Stanley y cyfarfod.

Y Gofrestr Risg Strategol (Eitem 11, BD-25-26-46)

59. Cyflwynodd TY y gofrestr risg strategol wedi'i diweddaru. Tynnodd sylw at y ddau newid mwyaf arwyddocaol ers i'r Bwrdd gyfarfod ddiwethaf. Roedd y risg ariannol wedi'i huwchraddio yn y cyfnod ôl-liniaru, yn dilyn awgrym y Bwrdd ym mis Mawrth, gan adlewyrchu ffactorau allanol heriol. Ac roedd diweddariadau sylweddol i risg yn y gwledydd datganoledig [wedi'u golygu].

60. Rhoddodd RS y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Medr yng Nghymru. Roedd rhaglen waith fwy uchelgeisiol nag a oedd wedi bod yn bosibl o'r blaen bellach ar y gweill, gan adlewyrchu galluoedd y tîm staff newydd. [wedi'i olygu]

61. [wedi'i olygu]

Diweddariad ar y broses strategaeth a'r agenda a awgrymir ar gyfer y diwrnod cwrdd-i-ffwrdd ym mis Hydref (Eitem 12, BD-25-26-47)

62. Adroddodd TY fod y broses strategaeth wedi'i harafu'n fwriadol, wrth aros am recriwtio'r Prif Weithredwr newydd.

63. Cynigiwyd y dylai agenda'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd ym mis Hydref gynnwys strategaeth a gweithredu argymhellion yr adolygiad llywodraethiant. Awgrymwyd y dylid cynnwys y cysyniad o 'addysg drydyddol' a sut mae'n cael ei diffinio ar draws y pedair gwlad - o ystyried yr anghysondeb yn y defnydd o'r term - fel pwnc ar gyfer y diwrnod cwrdd-i-ffwrdd, naill ai fel sesiwn annibynnol neu fel rhan o'r drafodaeth ar strategaeth.

Ymunodd Millie Crook â'r cyfarfod

Proses recriwtio ar gyfer y Prif Weithredwr nesaf (Eitem 13, BD-25-26-48)

64. Adroddodd y Cadeirydd fod Gatenby Sanderson wedi cael eu penodi i arwain y broses recriwtio Prif Weithredwr. Roeddent wedi cael eu dewis ar sail eu profiad a'u gwerth. Darparwyd adroddiad chwilio cyfamserol ar 17 Mehefin 2026.

65. Roedd y panel cyfweld yn cynnwys: [wedi'i olygu]

66. Cadarnhaodd MC fod cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer 22 Medi 2026, a chynigiodd y dylid cymeradwyo unrhyw benodiad trwy gylchrediad yn hytrach nag aros am gyfarfod y Bwrdd. [wedi'i olygu]

67. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y broses recriwtio a chyfansoddiad y panel cyfweld.

Gadawodd MC y cyfarfod.

Adroddiad ar Faterion Ariannol (Eitem 14, BD 25-26-49)

68. Cyflwynodd CBn yr adroddiad ar faterion ariannol. Roedd cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2026 wedi cefnogi symud i bortffolio buddsoddi gwahanol gyda Rathbones, gan gynnwys cyfran y gellid ei droi'n arian parod oes angen hynny. Yn dilyn cwestiynau a godwyd gan y Bwrdd, derbyniwyd cynnig wedi'i ddiweddaru [wedi'i olygu].

69. **Cymeradwyodd** y Bwrdd drosglwyddo buddsoddiadau i'r gronfa newydd wedi'i rheoli gan Rathbones, y trefniadau ar gyfer rhyddhau arian parod, a Pholisi Rheoli newydd y Trysorlys.

Mynediad i AU – penderfyniadau trwyddedu (Eitem 15, BD-25-26-50)

70. Cyflwynodd RS chwe phenderfyniad trwyddedu Mynediad i AU i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad (ARLC) wedi craffu ar y chwech. Roedd y papur yn nodi'r dyfarniadau a'r argymhellion ym mhob achos. [wedi'i olygu]

71. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y trwyddedau ar gyfer:

    a. AIM Qualifications and Assessment Group, The Cambridge Access Validating Agency, Gateway Qualifications Ltd, Open College Network London Region (OCNLR), Open Awards: *adnewyddu trwyddedau am gyfnod o bum mlynedd, gan adlewyrchu cydymffurfiaeth ag Amodau Mynediad i AU ac absenoldeb unrhyw bryderon rheoleiddio parhaus. Byddai'r dyfarniad yn amodol ar y trefniadau monitro safonol sy'n berthnasol i bob Asiantaeth Dilysu Mynediad (AVA).*

    b. Skills and Education Group Access: *adnewyddu trwydded am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar fonitro estynedig. [wedi'i olygu]*

    Byddai monitro estynedig yn digwydd o dan Amodau A3.1, A3.2 ac A4. [wedi'i olygu]

Adroddiadau o'r Pwyllgorau (Eitem 16, BD-25-26-51)

72. Adroddodd TY fod cyfarfod y Bwrdd Ymgynghorol wedi cynnwys ei ystod arferol o drafodaethau adeiladol a chefnogol. Roedd rôl y Bwrdd Ymgynghorol ei hun wedi'i chodi yng nghyd-destun yr adolygiad llywodraethiant. Ni fynegodd yr aelodau ymdeimlad o ddyblygu swyddogaethau cyrff eraill; yn hytrach, roedd y Bwrdd yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig lle'r oedd ei waith yn bwydo'n uniongyrchol i raglenni QAA. Roedd hyn yn gyson â chanlyniadau'r adolygiad llywodraethiant.

73. Adroddodd Dani Saghafi fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi craffu ar y gofrestr risg, ond bod yr adroddiad ar yr archwiliad allanol yn dal i fod ar y gweill, fel y cytunwyd â'r archwilwyr allanol Crowe [wedi'i olygu]. Roedd yr adroddiad cynaladwyedd wedi cael croeso, yn enwedig y gwelliannau o ran sut y caiff data ei gasglu. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar gydbwyso twf a risg yn erbyn yr angen i leihau'r defnydd o garbon, ac ymagwedd QAA yn y cyd-destun hwnnw.

74. Adroddodd JA fod cyfarfod olaf y flwyddyn Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr wedi'i gynnal, a bod KL wedi mynychu. Roedd y Pwyllgor wedi mynegi boddhad â'i waith yn ei feysydd blaenoriaeth ac o ran ansawdd yr allbynnau a gynhyrchwyd ar gyfer y sector. Roedd Blaenoriaeth Tri, a oedd yn ymwneud â rôl y Pwyllgor mewn perthynas â gwaith QAA, wedi creu rhywfaint o rwystredigaeth ac roedd hyn yn cael ei ddatblygu gyda thimau gweithredol. Byddai trafodaeth ar lefel y Pwyllgor Gwaith yn ategu hyn.

75. Nododd NC fod penodiadau diweddar i dîm Cymru QAA wedi arwain at newid cadarnhaol. Roedd Pwyllgor Cynghori Strategol Cymru wedi nodi'r angen am fynegi cenhadaeth, gweledigaeth a safle strategol QAA yng Nghymru yn gliriach, er mwyn cynorthwyo â'u swyddogaeth oruchwylio. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd cyfraniad y Pwyllgor.

Gadawodd MC y cyfarfod.

Penodiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd ac ymddeoliadau ohonynt (Eitem 17 BD 25-26-52)

76. Fel y corff enwebu, cysylltwyd ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i wneud enwebiad i'w gymeradwyo yn y cyfarfod. **Cymeradwyodd** y Bwrdd benodiad Lewis Wilson (Prifysgol Sussex) am dymor o flwyddyn, o 1 Gorffennaf 2026 tan 1 Gorffennaf 2027, o dan Erthygl 50 (v).

77. **Cymeradwyodd** y Bwrdd ailbenodiad Odette Hutchinson am ail dymor o 3 blynedd, o 17 Mehefin 2026 tan 17 Mehefin 2029, o dan Erthygl 50 (ii).

78. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y penodiadau canlynol i is-bwyllgorau:

    a. I'r Pwyllgor Archwilio a Risg

        i. Odette Hutchinson, tan ddiwedd ei hail dymor, a'r olaf: 17 Mehefin 2029.

    b. I'r Pwyllgor Enwebu a Thaliadau

        i. Moira Fischbacher-Smith, tan ddiwedd ei thymor cyntaf: 15 Mehefin 2028.

    c. i'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau (ACDAP)

    Yn y categori o *ddau aelod wedi'u penodi gan Bwyllgor Cynghori Strategol Cymru QAA:*

        i. Stephen McVeigh: Stephen yw Cadeirydd Rhwydwaith Ansawdd Cymru QAA a Dirprwy Is-Ganghellor Addysg (Ansawdd a Safonau) ym Mhrifysgol Abertawe.

    Yn y categori o *bedwar aelod sydd â phrofiad o bwerau dyfarnu graddau cyfredol neu ddiweddar*, am dymor cychwynnol o 3 blynedd, o 17 Mehefin 2026 tan 17 Mehefin 2029:

        ii. Yr Athro Judith Williams: Judith yw Dirprwy Is-Ganghellor Addysg ac Ansawdd ym Mhrifysgol Queen's Belfast.

    Yn y categori o *ddau aelod wedi'u penodi o Bwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr (SSAC) fel myfyrwyr sy'n astudio, swyddogion sabothol neu raddedigion diweddar,* i fod yn y rôl am dymor o 1 flwyddyn, tan 23 Mehefin 2027:

        iii. Shirley Tian Mae Shirley yn aelod o SSAC ac yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Caeredin.

        iv. Odhran Winters Mae Odhran yn aelod o SSAC ac yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Ulster.

79. **Cymeradwyodd** y Bwrdd yr ailbenodiadau canlynol i is-bwyllgorau:

    a. i'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau (ACDAP)

    Yn y categori o *ddau aelod wedi'u penodi gan Bwyllgor Cynghori'r Alban QAA,* am ail dymor, a'r olaf, o 3 blynedd, o 17 Mehefin 2026 tan 17 Mehefin 2029:

        i. Tina Harrison

        ii. Clare Peddie

    Yn y categori o *bedwar aelod sydd â phrofiad o bwerau dyfarnu graddau cyfredol neu ddiweddar*, am dymor cychwynnol o 3 blynedd, o 17 Mehefin 2026 tan 17 Mehefin 2029:

        iii. Ernest Caldwell

Yn y categori o *aelod sy'n rhoi persbectif cyflogwr graddedigion neu gorff proffesiynol,* am ail dymor, a'r olaf, o 3 blynedd, o 17 Mehefin 2026 tan 17 Mehefin 2029:

iv. Leonie Miller

Unrhyw fater arall

80. Doedd dim

Dyddiad y cyfarfod nesaf

81. Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal ddydd Mercher 21 Hydref, ac yna diwrnod cwrdd-i-ffwrdd y Bwrdd ddydd Iau 22 Hydref.

Rhestr Gweithredu Bwrdd y Cyfarwyddwyr				
Cofnod:	**Camau gweithredu:**	**Perchennog:**	**Dyddiad cwblhau:**	**Diweddariad:**
25-26-24	Papur dyrannu costau i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol.	CBn	31/12/2026	Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr
25-26-35	Tîm y Pwyllgor Gwaith i weithio ar ystyriaeth bellach o'r berthynas ag AU Ymlaen.	Pwyllgor Gwaith	30/10/2026	Y diweddariad wedi'i gynnwys ym mhapurau ac agenda'r Bwrdd ar gyfer mis Hydref
25-26-58	Y Pwyllgor Gwaith i ystyried yr ymagwedd at weithredu argymhellion yr adolygiad llywodraethiant allanol, gyda chamau gweithredu i'w cyflwyno i'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd ym mis Hydref.	Pwyllgor Gwaith	22/10/2026	Cyflwyniad wedi'i gynnwys ar agenda'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd